Yr e-weithdy cyfieithu bach ar y lefel Gyflawn,
i'r Gymraeg ac i'r Saesneg

Yn dechrau ar 14 Mawrth 2022

Gwybodaeth gyffredinol

Cyflwyniad

Dim ond ar y lefel Gyflawn y cynigir yr e-weithdy cyfieithu bach. Gosodir un darn i'w gyfieithu.

Bwriad yr e-weithdy cyfieithu bach yw cynnig cyfle i chi ymarfer a gwella eich sgiliau cyfieithu yn eich amser eich hunan, ac o fewn amserlen a strwythur pendant. Cewch sylwadau ar eich cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr Arholiadau Aelodaeth Testun y Gymdeithas.

Mae'r e-weithdy cyfieithu bach wedi profi ei hun i fod yn ddull effeithiol a phoblogaidd o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain. Gallwch chi ddilyn yr e-weithdy cyfieithu bach fel rhan o'ch paratoadau at sefyll Arholiadau Aelodaeth y Gymdeithas, neu fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol fel cyfieithydd. Beth bynnag fo'ch rheswm, dyma ddull ardderchog o ddatblygu a mireinio'ch sgiliau cyfieithu a gloywi eich mynegiant, er mwyn sicrhau bod eich gwaith yn gwella'n barhaus.

Yn yr e-weithdy cyfieithu bach:
- byddwch yn cyfieithu un darn yn unig;
- cewch dridiau i lunio'ch cyfieithiad *;
- bydd y darn i'w gyfieithu o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol;
- bydd popeth yn digwydd trwy gyswllt e-bost yn unig.

* Y tro hwn cewch dridiau i gyfieithu'r darn, sef yr un amserlen ac amodau â darn 'gwaith cartref' yn yr arholiadau ar y lefel Gyflawn.

Dyma ddyfyniad o Adroddiad y Prif Arholwr ar Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2021:

'Mae darn gwaith cartref [...] yn gyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau, heb fod o dan bwysau amodau arholiad. Siom y tro hwn oedd gweld un ymgeisydd yn cyflwyno darnau arholiad graenus, ond heb lwyddo i gynnal y safon honno yn y darn gwaith cartref. Gan fod sawl enghraifft o hyn wedi codi mewn gwahanol arholiadau, mae'n werth pwysleisio unwaith yn rhagor bod disgwyliadau'r arholwyr yn uchel iawn o ran y gwaith cartref, gan nad yw pwysau amser mor drwm yn achos y darn hwnnw, ac nid yw o dan amodau arholiad. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd fynd ati i gyfieithu'r darn gwaith cartref yn frysiog na heb ystyried y cynnwys yn ofalus, gan fod yr amser a'r rhyddid ychwanegol a ganiateir yn golygu bod disgwyl iddynt wneud unrhyw ymchwil angenrheidiol, a chanfod yr union air bob tro.'

Cofrestru

Y dyddiad olaf i gofrestru fydd dydd Iau, 10 Mawrth 2022, cyn 1pm.

Rhaid i bob unigolyn lenwi'r ffurflen gofrestru cyn y caiff ddilyn yr e-weithdy cyfieithu bach. Rhaid anfon ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob dysgwr. Dylid e-bostio'r ffurflen gofrestru i gweithdy@cyfieithwyr.cymru ar ffurf 'Word' yn unig (ac nid ar ffurf 'pdf' nac unrhyw fformat arall).

- Ni fydd tiwtor yn marcio gwaith mwy nag 8 dysgwr. Fe'ch anogwn, felly, i gofrestru a thalu cyn gynted ag y gallwch, a pheidio â'i gadael hi tan y funud olaf, gan mai'r cyntaf i'r felin fydd hi wrth neilltuo llefydd yn yr e-weithdy cyfieithu bach.

Trefn yr e-weithdy cyfieithu bach a'ch ymrwymiad chi

Bydd yr e-weithdy cyfieithu bach yn dechrau ar 14 Mawrth 2022, gan ddilyn yr amserlen hon:

- Dydd Llun, 14 Mawrth 2022

Cyn 2pm, cewch e-bost a fydd yn cynnwys y canlynol:
- y darn i'w gyfieithu;
- y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth am yr e-weithdy cyfieithu bach.

- Dydd Iau, 17 Mawrth 2022

Cyn 2pm, eich cyfieithiad i'w e-bostio i swyddfa'r Gymdeithas.

- Dydd Gwener, 25 Mawrth 2022

Cyn 5pm, y dyddiad olaf i'ch tiwtor anfon ei sylwadau ar eich cyfieithiad atoch.

Gofynnir i chi ymrwymo i gadw at yr amserlen uchod ac anfon eich cyfieithiad cyn y terfyn amser. Mae'n bwysig, felly, eich bod chi'n cynllunio'ch amser a'ch gwaith ar gyfer y cyfnod sydd gennych i lunio'ch cyfieithiad.

Y deilliannau dysgu

Ar ddiwedd yr e-weithdy cyfieithu bach:

- bydd gennych well syniad o ofynion a disgwyliadau sefyll arholiadau'r Gymdeithas ar y lefel Gyflawn;

- byddwch yn deall yn well yr hyn sydd ei angen arnoch i gyrraedd y safon ofynnol i lwyddo;

- byddwch wedi cael sylwadau gwrthrychol ar eich cyfieithu gan gyfieithydd proffesiynol a fydd o gymorth i chi wrth i chi ystyried sut i wella a datblygu'ch hun fel cyfieithydd.

Mae'r wybodaeth ynghylch talu ar y dudalen nesaf .../

Talu

Bydd y taliadau am un e-weithdy cyfieithu bach* yn:

- £25.00 i aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt, a'r Myfyrwyr Cyswllt.

- £30.00 i bawb arall.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

* Os bwriadwch ddilyn e-weithdy cyfieithu bach i'r Gymraeg ac e-weithdy cyfieithu bach i'r Saesneg ar yr un pryd, bydd hyn yn cyfrif fel dilyn dau e-weithdy cyfieithu bach a'r ffi fydd £50/£60.

Unigolion: rhaid i chi dalu wrth gofrestru. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer yr e-weithdy cyfieithu bach oni chawn y tâl ar yr un pryd â'r ffurflen gofrestru.

Sefydliadau cyhoeddus: peidiwch â disgwyl i gael rhif archeb swyddogol cyn anfon y ffurflen gofrestru atom. Gall yr archeb swyddogol ddilyn. Cofrestru sydd bwysicaf.

Cydnabod derbyn y ffurflen gofrestru

Bydd y Gymdeithas yn cydnabod derbyn pob ffurflen gofrestru, yn ogystal â'r taliad/rhif archeb, drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith iddi ein cyrraedd ni.

Tynnu'n ôl neu ganslo

Os bydd dysgwr yn tynnu'n ôl, mae'n rhaid iddo yrru e-bost at gweithdy@cyfieithwyr.cymru i roi gwybod i ni. Y telerau wrth wneud hyn fydd:
- 7 diwrnod neu ragor cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 75% o'r ffi.
- 3-6 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu, ad-delir 50% o'r ffi.
- 1-2 diwrnod cyn dyddiad cau'r e-weithdy cyfieithu neu wedi hynny, dim ad-daliad.

Os mai Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fydd yn canslo, cewch ad-daliad llawn.